YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVII. MEDI, 1947. RHIF 9.

Annerch i'r "Ymofynnydd"
Ar ei Ganmlwyddiant.

Henffych, gylchgrawn llawn lloniant !—Ti a ddoist
I ddydd dy Ganmlwyddiant ;
Gwelaist lwydd, ac aflwyddiant ;
Gwelaist haf, a gaeaf, gant.

Henffych, gylchgrawn dawn a dysg !—Ti ydoedd
I'n tadau'n lamp addysg ;
Am Grist, mwy, gyrraist o'u mysg
Gred gam,—â'r Gwir digymysg.

Henffych, gylchgrawn iawn dy nod !—Dêl i gwrs
D'ail gant bob hwylustod !
Mâg bobl wâr, a fo'n barod
I'r Grefydd Rydd, ddydd i ddod !

Awst 30, 1947. CLEDLYN.

CENNAD tirion gwirionedd
A'i wawr bur yn herio bedd.
Gweled 'rwyf dy blwyf di
O'r Taf i Aberteifi.

Rhyddid yw dy arwyddair
Perchaist a chedwaist dy air.
Glân dy ffordd, glew yn dy ffydd,
Nos du uffern nis diffydd.

Utgorn i herio atgas
Gredoau a beiau bas ;
Hen annedd ddiwinyddol
I buro ffug lwybrau ffôl.
Dadrithio fu dy draethawd
Hen 'goel-ffydd' ; goleuo ffawd.
Gelyn i ofergoeliaeth
A nwydau cul enaid caeth.

Rhyddh'aist farn, rhoddaist i fyd
Gnydau di-efrau hyfryd.
Y mae nyth emyn a thôn
Yn llwyn ir ein llenorion.
Teg emau, dawn Tau Gimel
Poen eu gwau pwy na'i gwêl ?
Am arlwy—Gwilym Marles,
Cu ŵr y graith, cawr y gwres.

Ar ben blwydd boed rwydd yr hynt
Heulwen ac oes ddi-helynt,
Dwg olau mewn dyddiau du
I aelwyd yr hen deulu.
Â llaw dyner lledaena
Dy newydd dedwydd a da.
Arwr y gwir, dyro ar goedd
Eiriau'r Iesu drwy'r oesoedd !

D. Jacob Dafis.

Cyfarchion.

Oddwrth y Parchedig Lawrence Redfern, M.A., B.D., Eglwys Ullet Road, Lerpwl.

Greetings to "Yr Ymofynnydd."

There never was a time when I desired so earnestly the ability to write the Welsh language, in order that I might greet in a fitting and appropriate way Yr Ymofynnydd on its hundredth birthday. But I can neither write much less speak your beautiful language. I feel thoroughly uneducated.

There is, however, a universal language of the heart and a common bond of the spirit, which surmounts all barriers of language,

and from my heart I send you greetings and congratulations from the English Churches on this great occasion.

To have borne witness to spiritual freedom through a century of time, is in itself no small achievement. To continue that witness now, in a shadowed world where there is not too much freedom of the spirit, is a calling and vocation as high and sacred as the world has ever known.

So I bid you God-speed in your work. Let the light shine as it so long has done, and give continued guidance and inspiration to our common cause.

LAWRENCE REDFERN,
President of the General Assembly.

Oddiwrth "THE INQUIRER" (*Sefydlwyd 1842*). *Golygydd—Parchedig E. G. Lee.*

OUR warm congratulations and good wishes on your Centenary. It is undoubtedly a great occasion, not only for your great little magazine, but for the ever widening cause of Liberal Religion. We rejoice with you in your gallant past. We pay tribute to your most helpful comradeship in the present. We hope for your truly glorious future.

With a few years in hand on reaching our own hundred years, may we now wish both of ourselves : Many happy returns of the century !

Oddiwrth y Parchedig S. Evans Bowen, Ysgrifennydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

ODDIAR cof gennyf yr oedd YR YMOFYNNYDD yn fy hen gartref yn Llwyneinon Uchaf, a rhagor nag un gyfrol wedi eu rhwymo yn llyfrgell fy nhad. Gwyddwn hefyd am un neu ddau a oedd yn ei dderbyn ym mhlwyfi Trelech, Clydey, a Llanwinio, ardal Rhydyparc.

Yr oedd rhifyn i mi fy hunan oddiar 1904, a thrwy gydol yr amser am un flynedd ar hugain yn yr Iwerddon, disgwyliwn amdano o fis i fis. Fy niddordeb mwyaf, efallai, ynddo oedd hanes y cynulleidfaoedd a'r aelodau a phob ysgrif ar arbenigrwydd ein mudiad.

Bu'n gyfrwng hefyd, mi gredaf, i gadw fy Nghymraeg yn fyw.

Y mae yn awr yn gant oed. Cerdded eto am gant arall. Bydd iddo newid ei wedd. Cadwed ei ysbryd.

Oddiwrth y Parchedig D. Delta Evans. Golygydd "THE CHRISTIAN LIFE" (*1902—1929*).

YN GANT OED !

LLONGYFARCHAF yn gynnes YR YMOFYNNYDD ar gyrraedd ohono'i ganmlwydd oed ; a diolch fyrdd hefyd i'w Olygydd presennol dysgedig, medrus, ac amyneddgar am ei lafur diwyd ar ran crefydd ryddfrydig—peth a werthfawrogir yn uchel gan bob Undodwr teilwng o'r enw. Cofiaf yn dda y tro cyntaf erioed imi weled YR YMOFYNNYDD, rywbryd yn y flwyddyn 1893. O hynny ymlaen hyd 1902 ysgrifennais lawer i'r misolyn annwyl hwn. Wedi hynny, os cofiaf yn iawn, o ddechrau'r flwyddyn 1936 hyd ganol y flwyddyn gyfredol, braidd y bu un rhifyn o'r YMOFYNNYDD heb fod ynddo gyfraniad o ryw fath o'm heiddo. Hir oes iddo eto, a phob llwyddiant, yw fy nymuniad. Tybed a gaf fi fyw i addurno'i dudalennau rywbryd eto wedi iddo ddathlu ei gant oed !

Oddiwrth Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Cyn-Brifathro Coleg Caerfyrddin.

OLYGYDD hynaws, anfonaf nodyn brysiog o longyfarchion cynnes iawn i'r YMOFYNNYDD ar gyrraedd ohono ei ganmlwydd. Er ei fod yn hen y mae cyn gryfed ei gerddediad heddiw a phan gychwynnodd ei yrfa. Bu fyw drwy flynyddoedd y bu llawer o'i gyd-gyfnodolion farw. Syndod mawr yw hynny o gofio cyfynged ei gylch fel misolyn a gwthir ni i'r casgliad pendant iddo lanw bwlch pwysig iawn a digoni rhyw angen i raddau na wnaeth unrhyw gyhoeddiad Cymraeg arall. Glynodd heb syflyd wrth y gwir hyd y'i gwelai a chroesawodd ymdriniaeth oleuedig ar bynciau canolog ein Ffydd. Gwir ydyw iddo ddadlau'n frwd ar bynciau diwinyddol yn enwedig yn ei flynyddoedd cynnar ond ei gymhelliad bryd hwnnw fel yn awr oedd ymgais am y gwir. Erbyn hyn collodd llawer o'r pynciau, y treuliwyd talentau disglair i'w trafod, eu diddordeb cyntefig ac enciliasant i safleoedd cymharol ddibwys trwy oleuni a dywynnodd o gyfeiriad uwchfeirniadaeth ac efrydiau cymharol o wahanol grefyddau mawr y byd, ac yn anad dim, efallai, o ddarganfyddiadau anghygoel gwyddor yng nghyfnod YR YMOFYNNYDD. Ni fu'r misolyn heb ei gyfraniad pwysig yn nhaenu'r golau a lewyrchodd mor danbaid o wahanol gyfeiriadau o ddyddiau cynnar yr adfywiad diweddar mewn gwyddoniaeth—y dadeni a chwalodd lawer o'r gwyll ac ofergoeliaeth a ymgysylltodd a chrefydd yn yr oesau tywyll. Y mae'r chwyldro a gymerodd le mewn daliadau diwinyddol yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf bron yn anghredadwy ac

ymhyfrydaf o feddwl fod YR YMOFYNNYDD ymhlith y dylanwadau goleuedig a hyrwyddodd yr ymwared o grafangau coelgrefydd. Trowyd cefn i raddau helaeth ar Gredoau'r Eglwys fore nad oedd rhith o sail iddynt. Y mae'n wir fod yr eglwys yn swyddogol yn glynu wrth hen ffurfiau cred a thraddodiadau, ond i filoedd o Gristnogion darfu eu swyn a'u cyfaredd a choleddwyd yn eu lle syniadau mwy cydnaws a rhesymol a ysgogwyd gan ymchwil ddiragfarn a darganfyddiadau sicr diweddar. Yn y newid hwn bu'r YMOFYNNYDD yn gyfrwng teilwng yn ei gylch i wasgaru'r caddug canoloesol a ymlynodd wrth ein sefydliadau crefyddol.

Maes arall y bu'r YMOFYNNYDD yn wasanaethgar iawn ynddo ydyw Hanes Crefydd yng Nghymru. Digon yw nodi yma ysgrifau helaeth a phwysig y Parchedigion Rees Jenkin Jones a T. O. Williams ac eiddo'r Cyn-Brifathro Walter J. Evans.

Bid siwr, fe deilynga cylchgrawn a wasanaethodd ei enwad, ac yn wir Gymru gyfan, cystal a'r YMOFYNNYDD nawdd a chefnogaeth barhaol pob carwr "Rhyddid, Gwirionedd a Chariad." Y tri gair hyn—mynegant gyrchnod YR YMOFYNNYDD. Y mae ei ddiben mor anhraethol bwysig ac mor hanfodol i'w geisio fel mai ar ein perigl yr anwybyddwn ef mewn argyfwng anocheladwy a wyneba'r YMOFYNNYDD yn gystal a chyfnodolion eraill yn y dyddiau enbyd hyn. Nid hwn yw'r adeg i wamalu ac i esgeuluso unrhyw foddion diwylliant pan yw cynifer o egnion yn tywyllu barn a chyfyngu rhyddid. Parhaed yr hen fisolyn annwyl yn hir eto yn llusern lachar i oleuo ein llwybrau.

Oddiwrth y Parchedig E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a Bwlch y Fadfa.

ANNWYL YMOFYNNYDD. Carwn dy longyfarch yn galonnog iawn ar gyrraedd ohonot dy ganmlwydd oed ac ar yr olwg raenus sydd arnat ar hyn o bryd. Cychwynnaist dy yrfa ym mhell o'm blaen. Gyda llaw cefais lythyr tua blwyddyn yn ôl oddiwrth chwaer a soniai am dy gychwynnydd, John Edward Jones, fel "my great-uncle". Er hynny y mae pob rhifyn ohonot yn fy meddiant wedi eu rhwymo'n barchus, a gallaf ddweud peth na all ond ychydig erbyn heddiw ei ddweud—darllenais dy rifynnau i gyd o'u cychwyn ym Medi 1847. Wrth dy ddarllen cefais fwynhad mawr, a phenderfynais dynnu allan fynegai at fy ngwasanaeth fy hun ynglŷn â hanes ein cynulleidfaoedd a'n capeli, hen weinidogion a'u haberth ddiflino, a phob digwyddiad o bwys. Costiodd hyn gryn lafur i mi, a bu'r mynegai o dro i dro yn help mawr i mi ac i lawer un arall. Tynnwyd fy sylw yn fawr wrth dy ddarllen at y newid mewn syniadau yn ein plith oddiar dy eni di. Lle gynt y troai pob dadl ogylch adnodau o'r Beibl ers tro bellach safle Theodore Parker a

James Martineau yw safle ein pobl—rheswm a chydwybod dyn yw'r gwir awdurdod mewn crefydd.

Ni bu dy yrfa'n esmwyth bob cam. Rhagor nag unwaith gorfu arnat gymryd seibiant—seibiant er adfer nerth—ond ers blynyddoedd bellach cerddi'n gryf a chadarn.

Yn herwydd amgylchiadau nad ydwyt ti'n gyfrifol amdanynt, bu raid codi dy bris fel y codwyd pris cyfnodolion o bob math ac o bob enwad. Hyderaf yn fawr na wna hynny ymyrryd a'th gylchrediad. O barch i'r gorffennol ac er mwyn dyfodol ein hachos ac achos rhyddid mewn crefydd parhaed ein pobl i'th brynu a'th ddarllen. Hoffaf yn fawr dy arwyddair—"Rhyddid, Gwirionedd, Cariad". Hwyl fawr i ti a'th olygydd yng ngwasanaeth y tair rhinwedd yna.—Yr eiddot yn gywir, E. O. JENKINS.

Oddiwrth y Parchedig J. Islan Jones, M.A., Prifathro Coleg Caerfyrddin.

LLONGYFARCHION cynnes i'r YMOFYNNYDD ar gyrraedd ohono ei gant oed ! Hir oes iddo eto i fod yn ddolen gydiol rhwng Undodiaid a chapeli Undodaidd Cymru.

Deuthum i adnabyddiaeth ag ef o leiaf drigain a phump o flynyddoedd yn ôl, ac o dro i dro, am gryn amser bellach, danfonais ambell bwt o erthygl iddo.

YR YMOFYNNYDD yw prif gronicl hanes y mudiad Undodaidd yng Nghymru ; ac y mae'n anhepgorol i hanesydd yr enwad. Diddorol iawn i mi yw hanes brwydrau a gwaith yr arloeswyr ; ac y mae parch mawr yn ddyledus i'r rhai a fu'n cofnodi yn ffyddlon ac yn onest ar dudalennau ein misolyn, brif ddigwyddiadau'r gorffennol.

I ni sydd yn heneiddio, yn dra thebyg, 'nid yw'r YMOFYNNYDD gystal ag y bu', ac efallai y gallem ddweud fel *Pwnsh* "Na, ni bu erioed gystal ag y bu". Eto y mae'n werth ei gefnogi a gwneuthur aberth drosto. Bu drwy mwy nag un argyfwng ; ond y mae eto'n fyw. Y mae'n mynd drwy argyfwng arall yn awr. A ddichon bod un Undodwr, nad yw yn fodlon talu chwe swllt yn y flwyddyn am gadw mewn cyffyrddiad a'i gyd-Gristnogion ? Hir oes i'r YMOFYNNYDD.

Oddiwrth y Parchedig J. Marles Thomas, M.A., Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

LLONGYFARCHION i'r YMOFYNNYDD ar gyrraedd ohono ei ganmlwydd. Dim ond pethau a garwn yn fawr y byddwn yn eu llongyfarch. Dim ond pethau *byw* sy'n medru dathlu pen blwydd.

Tyfodd YR YMOFYNNYDD yn beth byw yn fore iawn yn fy hanes i. Yr oedd felly i mi cyn i mi braidd ddysgu darllen. Ar aelwyd y "Ffatri" perchid ef gyda'r parch y bydd pob Undodwr gonest yn ei dalu i Ryddid, Gwirionedd, Cariad, a Duw. Darllenid ef gyda diddordeb a blas gan genedlaethau o'r teulu. Ar y ford ar y Sul gosodid ef yn ymyl *y ffordd i ddeall y Beibl, Gwersi* William James, a'r Beibl ei hun.

Un o'r pethau cyntaf a gofiaf ddarllen oedd y nodiadau "Oddiar y Tŵr", a rhoes y pennawd hwn enw arall i mi ar YR YMOFYNNYD. "Gwyliwr ar y tŵr" y bu am gan mlynedd, yn gwylio'r maes, yn diogelu'r cynhaeaf.

Cerdd rhagot, traetha dy neges, a bydd fyth yn arloeswr y ffordd i Grefydd Rydd.

Oddiwrth Argraffwyr presennol YR YMOFYNNYDD.

DYMUNA Gwasg Gomer, argraffwyr YR YMOFYNNYDD er y flwyddyn 1901 gyd-lawenhau â chwi ar gyrraedd ohono ei ganmlwydd oed. Bu llawer Gwasg Argraffu o dro i dro yn gofalu am wisg a diwyg YR YMOFYNNYDD ond yng Ngwasg Gomer y'i gwisgwyd ers yn agos i hanner can mlynedd bellach, a'r Wasg honno sy'n gyfrifol am ei ddiwyg presennol. Derbynasom y "copi" o fis i fis oddiwrth lawer o Olygyddion. Daw i'n meddwl yn awr enwau fel y Parchedigion R. J. Jones, William James, J. Hathren Davies, T. Arthur Thomas, a'r Prifardd Sarnicol fu'n olygyddion neu gyd-olygyddion i'r YMOFYNNYDD, heb anghofio y Parchedigion David Evans, T. Oswald Williams, T. L. Jones a chwithau'r Parch. J. D. Jones y golygydd presennol. Heddiw wrth baratoi'r rhifyn arbennig hwn i'w argraffu, cofia ein prif argraffydd, Mr. W. J. Jones, amdano'n cysodi'r rhifyn cyntaf o'r YMOFYNNYDD, a argraffwyd o'r swyddfa hon yn 1901, a dymunwn gydnabod yn garedig ofal manwl Mr. David Jones am YR YMOFYNNYDD ar hyd y blynyddau.

Wrth ddilyn y tri arwyddair—Rhyddid, Gwirionedd, Cariad—boed i'r YMOFYNNYDD gadw'n fyw i'r dyfodol y diddordeb byw a'r gweithgarwch egniol a ddangosodd ar hyd y can mlynedd o blaid rhyddid meddwl, rhyddid crefyddol, a ffyniant Addysg yng Nghymru, ac yn arbennig yng ngwaelod a Chanolbarth Sir Aberteifi lle'r erys Castell Hywel a Llwynrhydowen yn enwau arwyddocaol iawn i garwyr gwir addysg a rhyddid.

Y BRODYR LEWIS.

Dros y Ganrif.

(1847—1947)

TASG yr hanesydd yw bwrw golwg yn ôl a gwneud blynyddoedd y gorffennol yn fyw. Yn ôl ein gallu, dyna'r ymgais yn y rhifyn hwn—rhifyn dathlu canmlwydd ein misolyn. Ceisiwn wneud fel y gwnaeth cymeriad mewn nofel enwog. Gwaith pennaf "Old Mortality" yw crafu'r mwsogl oddiar lythrennau cerrig bedd y *Covenanters*, fel y gallai pobl ei ddydd ef ddarllen eu henwau a gwybod pwy oeddynt.

Pwy oeddynt ? Bwriwn olwg yn ôl, a cheisiwn weld pwy oedd "utgyrn Undodiaeth" yng Nghymru ym Medi 1847. Dyn ieuanc wedi cael ychydig wythnosau o brofiad yn y weinidogaeth oedd Thomas Thomas, Pantydefaid. Yr oedd David Jones newydd ymadael â chynulleidfa Blaengwrach, ac nid oedd ond tair wythnos er pan gladdwyd E. W. Lloyd, gweinidog y Bedyddwyr Undodaidd yn y Wig a'r Notais. Awn ar Hydref 6 a 7 i gwrdd Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth (Cyrddau'r Hydref i ni heddiw) ym Mhantydefaid, ac yno cawn wrando ar John James, Gellionnen ; D. Griffiths, Llandeilo ; Owen Evans, Cefn Coed ; T. Thomas, Pantydefaid ; D. Lloyd, Caerfyrddin ; J. E. Jones, Penybont ; T. Griffiths, Cribyn ; a John Davies, Castell Newydd. Bwriwn olwg ar y rhifynnau cynnar o'r YMOFYNNYDD, a darllenwn hanes y cynulleidfaoedd a'r cyfarfodydd. Gwelwn enwau Rees Davies, Capelygroes ; J. Jones, Aberdar ; Titus Evans, Caerfyrddin ; Peter Joseph, Ciliau ; John Thomas, Llandysul ; David Evans, Galltyblaca, D. L. Evans, Penybont ; a Titus Lloyd, Notais.

EI DDOSBARTHU.

Oddiar Ionor 1901 aeth YR YMOFYNNYDD allan i'r byd ar ei daith fisol o Wasg Gomer, Llandysul, ond ym Medi 1847 ei fan cychwyn oedd Caerfyrddin (Gwasg J. T. Jones, Heol Las). Edrychwn ar ei rifyn cyntaf yn dod i Landysul. Ysgrifenna'r Parchedig John Thomas yn ei ddyddiadur[1] :—

> August 31st, 1847—Mr. Stevens and I had tea at Tregroes. I returned to Mr. Evans the new Welsh monthly periodical . . . which he had at Pantydefaid last Sunday. The 2 doz. ordered by me have not come.

(Nid yw "mofyn benthyg" YR YMOFYNNYDD yn beth anghyffredin heddiw).

---

[1]Llawysgrif Miss K. Jones.

Bwriwn olwg i gyfeiriad Hirwaun. Gwelwn fachgen deuddeg oed yn llusgo'i gam blinedig dan bwysau parsel trwm. Gadawn i R.J.J. adrodd yr hanes[2] :—

"Nid oedd cyfleusterau dosbarthu'r pryd hwnnw y peth ydynt yn awr. Nid oedd yna'r un South Wales Railway na'r un Vale of Neath Railway mewn bodolaeth eto i gysylltu gwahanol drefi â'i gilydd, ac yr oedd y draul i anfon YR YMOFYNNYDD i rai cyfeiriadau yn drwm. Os nad yw fy nghof yn fy nhwyllo deuai sypyn Aberdar o Gaerfyrddin gyda'r *coach* i Hirwaun. A gaf fi adrodd tipyn o brofiad plentyn? Cofiaf fyned i Hirwaun un tro i nôl YR YMOFYNNYDD. Yr oedd y ffordd ym mhell, a'r pryd hwnnw yn unig ac yn noeth. Pan oeddwn tua hanner y ffordd yn dychwelyd yn ôl, pwy welwn i yn dod i gwrdd â mi ond fy nhad. Synnais beth, ond llawenychais fwy, gan fod y sypyn yn drwm i fychan fel myfi—yr oedd gryn lawer yn drymach na'r sypyn a gludir heddiw gyda'r trên i Aberdar. Y teimlad o flinder a wasgai fwyaf arnaf fi, ond tebyg fod ei feddwl ef wedi ei feddiannu gan rywbeth arall mwy difrifol, gan fod ei ffon gleddyf ganddo yn ei law—offeryn a allasai fygwth perygl pe digwyddasai lleidr groesi ei ffordd. Ni welais y ffon honno gydag ef erioed ond y tro hwnnw".

Gwyddai John Jones am werth y golud yng nghynnwys y pecyn; gwyddai, a defnyddio ymadrodd Gwilym Marles, fod "chwys talcen a chalon" rhywrai ynddo. Oni lafuriodd yntau oriau maith i amddiffyn ei safbwynt pan adolygodd y Parchedig J. Jones, Rhydybont, ei bregeth ar y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan yn *Y Golygydd*? Efallai fod ei ysgrif ar "Dystiolaeth Llyfr Natur am Dduw" yn y rhifynnau hynny. Gwelwn ef, y dyn corffol, "briglwyd penfoel, a'i wyneb yn dew-farfog", yn cymryd y baich oddiar ysgwydd ei fab, ond gwelwn hefyd rywbeth mwy na hynny. Gwelsom ni'r mab yn tyfu i gario "baich cyfrifoldeb" y golygydd am lawer o flynyddoedd. Dywedodd rhywun am farf John Jones, ei bod yn ddigon i greu dychryn yn y cythraul. "Dyna fy swydd i", medd yntau.

Y RHIFYNNAU CYNNAR.

Cyfeiriodd mwy nag un ysgrifennydd yn y rhifyn hwn at y newid a fu ar safbwyntiau crefyddol yn ystod y ganrif. Beth ydyw'r cwestiynau yr ysgrifennid arnynt yn y rhifynnau cynnar? Rhyddymofyniad, Pechod Gwreiddiol, Athrawiaeth yr Iawn, Gofynnion i Drindodiaid. Gŵyr pob un sy'n darllen cynhyrchion diweddaraf y siopau llyfrau heddiw fod pob un o'r testunau hyn yn destun amserol. Gwir nad oedd lawer o sôn amdanynt tua diwedd y

[2]Gweler YMOF. 1907 tud. 198.

ganrif o'r blaen a dechrau'r ganrif bresennol. Ond nid felly y mae heddiw. Y mae tueddiadau diwinyddol yn gryfach nag oeddynt i gyfeiriad Cristnogaeth ddogmatig, ond *nid hwy* ydyw'r unig dueddiadau cryfion yn y byd diwinyddol. Nid yn unig yn economaidd ond hefyd yn feddyliol a chrefyddol yr ydym yn medi cynhaeaf dwy ryfel fyd-eang. Yn dra gwahanol i ddyddiau'r "ddiwinyddiaeth newydd", gorfodir ar Gristnogaeth Rydd heddiw archwilio ei phynciau. Hwyrach fod hynny'n beth da, ac o bydd iddi wneud hynny'n onest, credaf nas ceir yn brin i gwrdd â gofynion dyfnaf ein bywyd. Ysgrifenna Tau Gimel yn y rhifyn cyntaf (tud. 23) :—

> "Y mae yn naturiol iawn i mi . . . farnu fod y byd yn well nag oedd, ac y bydd iddo wellhau fwy fwy o amser i'w gilydd, gyda diflaniad crefyddau poblogaidd yr oes. Y mae gwewyr yn y gwersyll, Syr. Y mae Calfiniaeth wedi ymadael ym mron ag Eglwysi yr Independiaid . . .

Cwyna'r Bedyddwyr heddiw fod rhyw fath ar Galfiniaeth ar gynnydd ymhlith yr Independiaid. Beth bynnag, nid yw safbwyntiau David Adams a Thomas Rees mor boblogaidd ag oeddynt. Gellir defnyddio eto'r un frawddeg a osododd Tau Gimel uwchben ei lythyr mewn ystyr wahanol, Tempora mutantur nos et mutamur in illis. (Newid yr amserau, a newidiwn ninnau gyda hwy).

Nid traethodau diwinyddol yn unig a geir yn y rhifynnau cynnar. Yn Chwefror 1848 dechrau Thomas Stephens ysgrifennu ei draethodau llenyddol. Y cyntaf ohonynt yw "Buchdraeth Hywel Dda", ac yn rhifyn Ionor ceir traethawd gan rywun—Philotheoros—ar y "Gwythiennau Glo". Neilltuolir tudalen i'r beirdd, a cheir rhai paragraffau o "Newyddion Cartrefol a Thramor'. I lanw cornel rhoddir prisoedd yr anifeiliaid a'r bwydydd ym marchnadoedd Llundain a Chaerfyrddin. Ceir ambell erthygl hanesyddol fel yr ysgrif ar "Yr ymranniad yn Hengoed" a'r ysgrif ar "Dy Cwrdd yr Undodiaid yn Ystrad, Ceredigion". Nid anwybyddir y broblem gymdeithasol, ac ar y dalennau sydd bellach yn melynu gan henaint gwelir cysgod hyll "Brad y Llyfrau Gleision". Crwydrwn o rifyn i rifyn, ac fe wasgir arnom y teimlad ein bod yng nghwmni arloeswyr y Deffro yng Nghymru.

Y Cyfnewid Meddyliol.

Wrth edrych yn ôl, gwel R.J.J. fod newid "yn nhôn a charitor" Yr Ymofynnydd. Tawelodd cyfnod y brwydro diwinyddol ffyrnig, ac yn rhyfedd symudwyd "yr hen filwyr dewrion" gyda'i gilydd bron o'r maes. Claddwyd hwy i gyd rhwng Medi 1863 a Chwefror 1866. Daw tô newydd i gymryd eu lle—tô ieuengach dan ddylanwad safbwyntiau newydd. Yr oedd symudiadau meddyliol ar droed a fyddai cyn hir yn malurio cestyll yr hen ddiwinyddiaeth.

Ni sylweddolodd J. E. Jones, J. Jones, Owen Evans, D. L. Evans, a Dr. Lloyd fod yr offeryn a ddefnyddient—yr egwyddor o ryddymofyniad—yn mynd i danseilio yn yr eithaf sylfaen eu crefydd

hwythau—awdurdod y Beibl. Undodiaeth Feiblaidd oedd eu Hundodiaeth hwy. Derbynient unrhyw syniad ped argyhoedder hwy fod y Beibl yn awdurdodi'r syniad hwnnw. Darllenent y Beibl yng ngolau rhyddymofyniad, egwyddor a dderbyniasant oddiwrth y Diwygiad Protestanaidd. Cymerer brawddeg o ysgrif Philo (D. L. Evans) yn y rhifyn cyntaf, tud. 17.

"Ond nid oes eisiau olrhain rhagor ar y pen hwn, oblegid mae yn beth amhosibl dwyn profion o'r Bibl i brofi fod Duw yn gofyn Iawn i gyfiawnder. Yn wir, pe bae y fath adnod i'w chael byddai'r Bibl yn croesddweyd iddo ei hun".

Sylwer mai'r Beibl yw'r awdurdod, ond rhydd-ymofyniad yw egwyddor yr esboniadaeth—nid y Credoau Eglwysig.

Ond yr oedd dylanwadau newydd ar y ffordd. Gwelwyd cysgod gwan ohonynt ar bregeth Dr. Channing yn Baltimore yn 1819. Yr oedd ysgolion newydd o athronwyr yn codi yn yr Almaen, a'u dylanwad yn treiddio'n araf i mewn i Brifysgolion Prydain. Dechreuodd Dr. Martineau ei weinidogaeth yn 1828 fel "Undodwr Beiblaidd". Ond yn 1836 ysgrifenna yn *The Rationale of Religion*, "no seeming inspiration can establish anything contrary to reason : that the last appeal in all researches into religious truth must be to the judgements of the human mind : that against these judgements Scripture cannot have any authority". Yn 1841 cyhoeddodd Theodore Parker ei bregeth, *The Transient and Permanent in Christianity* ac y mae'n dilyn ynddi syniad Emerson am fewnfodaeth Duw, syniad sy'n gwneud yr Ymgnawdoliad ledled a'r ddynoliaeth.

Gwreiddiodd y dylanwadau newydd ym meddwl Gwilym Marles, a dyma bwnc ei ddadleuon. Yr oedd "y Diwygiad Newydd" ar droed, a chyrhaeddodd ymhellach na ffiniau Undodiaeth. Tanseiliodd daeareg hanes y creu yn *Genesis*, ac yn 1859 profodd Darwin wirionedd y syniad am Ddatblygiad. Rhoes Hegeliaeth yr athronwyr i'r syniad hwn wisg grefyddol. Llewyrchodd goleuni newydd ar feirniadaeth Feiblaidd ; deffrowyd diddordeb yng nghrefyddau eraill y byd ; rhoes astudiaeth fanylach o lenyddiaeth cyfnod Iesu olwg newydd ar ei genhadaeth. Nid oes ofod i ymhelaethu.

* * *

Cerddwn i mewn i'r ganrif newydd yn glir ein golwg, yn obeithiol ein hysbryd. Dechreuodd J. E. Jones a'i gyd-ysgrifenwyr ar eu gwaith yn ffyddiog yn eu cred yng nghariad Duw a buddugoliaeth daioni. "Rhyddid, Gwirionedd, Cariad"—dyna arwyddair eu hymdrech. Dyna'r arwyddair eto. Diflanna dynion, ond erys egwyddorion. Yng nghwrs amser bydd y dwylo a luniodd y rhifyn hwn yn llwch—ond erys egwyddorion. Dalied Yr Ymofynnydd i gerdded rhagddo, gan ledio'r ffordd at well bywyd ar y ddaear. Tywysed eto ei ddarllenwyr i gerdded llwybr anodd yr arloeswyr ym myd meddwl a bywyd. Glyned wrth ei enw, canys atgofia ni am egwyddor sylfaenol hanesyddol eglwysi yr Undodiaid.

Golygydd.

Gwewyr Esgor yr Ymofynnydd.

Gan y Parchedig Simon Jones, B.A.

Ym Medi 1847 yr ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r misolyn yr ym yn awr yn dathlu ei ganmlwydd. Ond trosglwyddwyd y *germ* i feddwl Undodiaid Cymru un flynedd ar ddeg yn gynharach. Yn ei lythyr at weinidogion y Deheubarth, wedi iddo ymweled â'n heglwysi yn 1816, awgrymodd y Parchedig Richard Wright, y cenhadwr Undodaidd o Lincoln, y byddai "cyhoeddiad bychan yn yr Iaith Gymraeg yn debyg o wneuthur mawr ddaioni." Ychwanegodd iddo ddeall oddiwrth gyfeillion yr achos mewn amryw leoedd y byddai derbyniad parod i'r anturiaeth, ac anogodd hwynt i sefydlu'r fath gyhoeddiad. "Bwriwch," meddai,[1] "iddo gael ei gyhoeddi yn fisol am 3c. y rhifyn o dan yr enw 'Y Diwygiwr Cymraeg Dwyfeinyddiol[2]'." Ystyriwyd y mater, ond oherwydd fod Cymdeithas y Dwyfundodiaid yn cyhoeddi pamffledau ar y pryd er lledaenu Undodiaeth yng Nghymru, ni ffrwythodd awgrym Mr. Wright, a hynny, yn ôl Dr. Charles Lloyd mewn llythyr[3] i Amnon flwyddyn yn ddiweddarach, am fod "pob un am ganlyn ei fympwy ei hun." Yn y llythyr hwn, a anfonwyd o Lanbedr, dywed Dr. Lloyd ei fod ef yn awr yn barod i ddwyn allan gyhoeddiad am 3c. y mis, "devoted principally to the cause of Unitarianism without trying to disguise its designs." Ceisia gan Amnon farchogaeth ei farch ar frys ac ymweled â'r Parchedig John Thomas, Llandysul a'i gymell i gymryd yr olygyddiaeth, am fod ganddo gymhwysterau neilltuol—ehangder ei wybodaeth o ddiwinyddiaeth, ei dymer bwyllog, ei farn aeddfed, ac agosrwydd ei breswylfod at Gaerfyrddin lle y byddid yn argraffu. Anogai Amnon i symud yn gyflym, ac eto'n weddol ddirgel rhag ofn y byddai i'r bwriad fethu. Rhaid cwrdd cyn diwedd yr wythnos am ei fod ef yn barod i ddwyn allan ei fisolyn ar y cyntaf o Fehefin.

Chwe mlynedd yn ddiweddarach[4] ysgrifenna'r Parchedig J. E. Jones, Penybont ar Ogwr, at y Parchedig John Jones, Aberdâr, brawd Amnon, "Your brother told me he purposed setting up a Welsh periodical. He proposed Saml. Evans[5] as acting Editor which would never do without the superintendence of a competent and responsible Editor. Mr. Jno. Thomas declines acting as such. It will not succeed."

---

[1]Gweler Ymof. Ionor 1853, tud. 20.
[2]Diwinyddol.
[3]Ebrill 30, 1828.
[4]Gorffennaf 23, 1834.
[5]Pwy oedd Saml. Evans ?

Yn awr symudir y *centre of gravity* o Geredigion i Forgannwg. Ym mywgraffiad y Parchedig John Jones, Aberdâr,[6] ysgrifenna Gwilym Marles, "Nid yw yn annhebyg nad oedd ef gyda'r cyntaf i feddwl am gyhoeddiad misol i'r Undodiaid. Awgrymasai efe un o leiaf mor gynar a mis Medi 1835, er mai yn Medi 1847 y daeth y rhifyn cyntaf o'r YMOFYNNYDD allan." Yn Chwefror 1833 yr ymsefydlodd y Parchedig John Jones yn weinidog yr Hen Dŷ Cwrdd, Heol y Felin, ac heblaw diddordeb ei frawd yr oedd awyrgylch Aberdâr yn ffafriol. Yma yr oedd ynni creadigol ei ragflaenwyr, Edward Evans, Toncoch, a Tomos Glyn Cothi, yn dechrau dwyn ffrwyth ymhlith y werin. Byrlymai ffynnon y diwylliant Cymraeg yn Aberdâr a Merthyr yn yr ail chwarter o'r ganrif ddiwethaf. Yma yr oedd y Siartiaid yn fawr eu brwdfrydedd a'u hymdrechion dros iawnderau dyn, a thystiai y *Merthyr Guardian* ar y pryd fod y Sosiniaid yn Siartiaid "to a man[7]." Dau Undodwr, aelodau yn Nhwynyrodyn, Merthyr, ac un ohonynt yn fab y gweinidog, oedd yn gyfrifol am gyhoeddiadau y mudiad yng Nghymru, *Udgorn Cymru* a'r *Advocate*. Ysgrifennai John Jones, ynghyd ag aelodau o'i gynulleidfa fel y Carw Coch, Cynonwyson, ac eraill i'r *Udgorn*, ac yr oeddynt i gyd, ynghyd ag Owen Evans, Cefn Coed, yn frwd dros y mudiad, ond yn wrthwynebol i arfer *force* er cyrraedd eu hamcan.

Tua'r un adeg ag ymdrechion y Siartiaid daeth yr Eisteddfod leol yn fagwrfa llên yng Nghymru. Ym Mai 1841 cynhaliwyd "un o Eisteddfodau cyntaf, os nad y cyntaf oll, yn y Stag Inn, Trecynon, trwy lafur ac ymdrech mawr y Carw Coch."[8] Yr un lle oedd man cyfarfod y Gymdeithas Lenorol, ac aelodau yr Hen Dŷ Cwrdd yn flaenllaw ynddi. Yno hefyd yr oedd man cyfarfod ychydig o weithwyr o dan yr enw "Rhyddymofynwyr Aberdâr." Tua'r un amser cawn Eisteddfodau Merthyr o dan arweiniad yr enwog Thos. Stephens, awdur *The Literature of the Kymry*. Yr oedd Undodiaid Morgannwg yn gyffredinol yn cymryd rhan flaenllaw yn y Mechanics Institutes a'r Cymdeithasau Dyngarol.

Dyma'r awyrgylch briodol i feithrin awgrym Richard Wright, ac y mae'n amlwg mai oddiyma y daeth y dynamics, y gwth creadigol, i sefydlu'r YMOFYNNYDD. "At wasanaeth y bobl weithgar yr amcanwyd YR YMOFYNNYDD," meddai'r Golygydd yn Ionor 1852, ". . . ac fel y mae y dosbarth hwn sy'n cynnal y cyhoeddiad." Un o blant diwylliant y werin ydyw.

Gan fod y Gymdeithas Gymraeg yn parhau i ymwrthod â'r anturiaeth—yn wir, yr oedd rhai o'i blaenoriaid fel John James,

---

[6] *Yr Athraw*, Mehefin 1867, tud. 124.
[7] Gweler *John Frost*, D. Williams.
[8] *Bywgraffiad y Carw Coch* gan ei fab (L. N. Williams).

Gellionnen, yn *hostile* i'r mudiad, ac ni anfonodd ef a gyfrifid yr ysgrifennydd Unodaidd mwyaf galluog ei ddydd air i'r cylchgrawn yn ystod ei oes,—gan fod y Gymdeithas Gymraeg yn wrthwynebol rhaid wrth offeryn newydd at y gwaith. Felly, yn 1846 sefydlwyd Cymdeithas Lyfrau Gwent a Morgannwg i'r diben penodol o ddwyn allan y cyhoeddiad a ohiriwyd cyhyd. Ysgrifennydd y Gymdeithas hon oedd y Parchedig J. E. Jones, Penybont ar Ogwr, a dewiswyd ef i olygu'r misolyn. Ef a roddodd iddo ei enw "Yr Ymofynnydd Crefyddol." Cwtogwyd yr enw, wrth bob tebyg, gan John Jones ac Owen Evans—hwy a'r golygydd oedd y *Big Three*. Hwy a fu'n gyfrifol am eirio'r *prospectus* a aeth allan ym Mai 1847. Y mae copi ohono o'm blaen yn awr yn llawysgrif y golygydd ynghyd â thros hanner cant o'i lythyrau at John Jones,[9] y rhan fwyaf ohonynt rhwng 1829 a 1862, ac y maent bron i gyd yn ymwneud â'r cyhoeddiad. Felly cawn y ffeithiau o lygad y ffynnon.

Yn ôl y prospectus,

> "Amcan y Cyhoeddiad fydd, annog a chynorthwyo rhyddymofyniad—taenu gwybodaeth o wir feddwl yr Ysgrythyrau—ac yn neillduol i fod yn gyfrwng i osod ger bron y Cymry ffrwyth ymofyniadau dynion o wahanol dybiau, ynghylch gwirionedd a llesoldeb, neu ynte anwiredd a drygioni yr athrawiaethau a ddysgir yn gyffredin fel y rhai Efengylaidd, a hynny er galluogi[10] y Darllenydd i farnu drosto ei hun".

Rhoddir enwau dau o weinidogion Ceredigion, a dau neu dri o weinidogion Sir Gaer fel derbynwyr enwau tanysgrifwyr, ynghŷd â John Jones, Owen Evans, a'r golygydd. Cadarnha'r llythyrau yr argraff mai'r tri olaf ydoedd pen a chorff yr anturiaeth.

Ar Orffennaf 17, 1853 ysgrifenna'r golygydd,

> "I feel now more than ever that the continuance of the YMOFYNNYDD must continue to depend on Mr. Evans and you and myself, and what we can persuade our friends to do for it".

Pedwar mis cyn hynny (Mawrth 10, 1853) ysgrifenna'r golygydd at John Jones,

> "You and I could carry on the YMOFYNNYDD ourselves with only occasional help if we were to work cordially and harmoniously".

Ni sylwoddolid yr "if" bob amser. Yn fynych yr oedd mellt a tharanau ar fynydd Aberdâr, a *deep depression* yn y Fro. Ym Mai 1847 awgrymai J. E. Jones ohirio'r cyhoeddi am chwe mis am fod

---

[9]Casgliad y Parch. R. J. Jones.

[10]Yn y prospectus printiedig darllenir ". . . , neu ynte anwiredd a drygioni athrawiaethau poblogaidd yr oes a hyny er galluogi . . .". Gweler YMOF. Medi 1907, tud. 197.—*Gol.*

yr amserau yn wael ; ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ofnai fod y cylchrediad yn lleihau, er fod ei dderbyniad yn well na'r disgwyl. Yn y bil i'r Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, ceir yr eitem—25 copies, 2nd. Edition. Dichon nad oedd hyn ond sypyn ychwanegol o'r un argraffiad. Gwerthwyd 100 yn Aberdâr, ond nid aeth ond 150 i holl gapeli Ceredigion. Nid rhyfedd fod yr iselder yn cynhyddu bob blwyddyn : y golygydd a gariai'r cyfrifoldeb yn gyfangwbl—ariannol a llenyddol. Ym Mawrth 1853 cyfeiria at "some scores of pounds that I have lost by and through the Publication". Ac y mae cyfeiriad arall at ryw £60 angenrheidiol er cyfarfod â gofynion y cyhoeddiad. Nid oes brofion i Gymdeithas Gwent a Morgannwg wneud mwy na phrynu sypynau o'r misolyn, a'r Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, oedd yr unig gynulleidfa a wnaeth gyfraniad (£10). Gorfu i'r golygydd ei hunan yn fynych ysgrifennu'r holl dudalennau oddigerth yr hyn a ddanfonai John Jones, ac achwynai na roddai'r gweinidogion yr un anogaeth iddo, er fod y cynulleidfaoedd yn "most anxious" am ei barhad. Drwy'r cwbl parhai'r golygydd yn ffyddlon, ac y mae'r llythyrau sydd gennyf yn braw o'r ffyddlondeb hwn ac o'i wyleidd-dra, ei dymer hynaws a'i ysbryd Cristnogol. Ym mhob storm ef a daflai olew ar y dŵr. Cyfeiria gohebydd yn *Cymru* (Awst 1918) ato fel un o'r golygyddion yr hoffasai ef ei weled.

Profodd yr anawsterau'n ormod, a methodd gerdded ymhellach nag Ebrill 1854. Llawenhai ei elynion am fod "YR YMOFYNNYDD wedi marw", ond honnai ei gyfeillion nad marw ond cysgu yr oedd. [Aeth "i orffwys" wedi hynny ym Mehefin 1865 ac yn Chwefror 1879].

Gwŷr Aberdâr eto a'i dihunodd yr eilwaith. Hydref 7, 1858, cynhaliwyd cyfarfod yn yr Hen Dŷ Cwrdd "i gymeryd dan sylw pa lwybr a fyddai mwyaf cymwys i ailsefydlu YR YMOFYNNYDD". Apwyntiwyd deuddeg o'r aelodau i gasglu tanysgrifwyr yn y gymdogaeth, pob un a'i ran o'r dref, a phenderfynwyd i bob tanysgrifiwr dalu chwarter ymlaenllaw. Erbyn Tachwedd 4 yr oedd ganddynt dros ddau cant o enwau a ychwanegwyd yn ddiweddarach i 224. Penodwyd y Carw Coch i ddanfon cylch-lythyrau i'r cynulleidfaoedd, ac Eiddil Cynon, yr ysgrifennydd, i ohebu â'r Parchedig J. E. Jones, Penybont, a cheisio ganddo ail-sefydlu'r misolyn, Ymddangosodd rhifyn cyntaf yr ail gyfres yn Ionor 1859. Y mae'n amlwg na adawai gwŷr Trecynon i'r "borfa dyfu tan eu traed". "Cyfiawn yw nodi", medd y golygydd, "mai i weithwyr Aberdâr (lle y dioddefir fwyaf oddiwrth wasgfa yr amser presennol) a'u hymdrechion selog, a'r cydymdeimlad a ddangoswyd yn y gymydogaeth, yr ydys yn ddyledus yn flaenaf am adfywiad YR YMOFYNNYDD y pryd hwn". (YMOF. 1859, tud. 7).

Nid rhyfedd fod Undodiaid Aberdâr un amser yn honni "legal claim" ar y misolyn, a'r golygydd yn cyfaddef wrth John Jones mai

eiddo'r "Unitarian Publick" oedd, "of which the Gwent and Morganwg Society and yourself in particular are representatives". Ond gan fod y misolyn mewn dyled ar y pryd yr honnid y "claim" adgofir gweinidog Penybont am ewyllys Rabelais, "I owe much, I have nothing, the rest I give to the poor."

Afiechyd y golygydd yn bennaf a achosodd i'r cyhoeddiad fynd i "orffwys" drachefn ym Mehefin 1865. [Bu farw J. E. Jones y Chwefror canlynol]. Ond daeth Gwilym Marles ar unwaith i'r adwy, ac ym Medi 1865 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r *Athraw* mewn diwyg fwy llenyddol, a'r ysgrif odidog ar "Fugeiliaid Sir Aberteifi" ar ei flaen. Stori arall ydyw honno. Ond rhaid cofio yn awr fod *Yr Athraw* wedi llanw y bwlch o Fedi 1865 hyd Awst 1867, tra y bu Yr Ymofynnydd yn "cymryd hoe", fel y dywed y Cardi.

Y tro nesaf yr ymddangosodd Yr Ymofynnydd yn Ionor 1868 yr oedd "dan gymeradwyaeth y rhan fwyaf o'r Gweinidogion ac eraill oeddynt bresenol yn y Pheasant Bush, ger Gellionen ar y 4ydd o Orphenaf 1867" (y Cwrdd Blynyddol), a than olygiaeth y Parchedig D. L. Evans, un o athrawon Coleg Caerfyrddin. Ymgymrodd â'r gwaith ar y telerau, ymhlith eraill, fod trysorydd yn cael ei ethol a chronfa yn cael ei chasglu er mwyn talu'r argraffydd ar ben pob mis. Nid ymddengys y sylweddolwyd yr un o'r ddau, ond gwnaethpwyd y taliadau i'r "Parch. Thos. Thomas, Ysgrifenydd" hyd Mehefin 1870.

Dilynwyd y Proffesor Evans gan y Parchedig R. J. Jones, a daw Aberdâr yn ôl i'r pictiwr eto, er na fu allan ohono, mewn gwirionedd, o'r dechrau gan fod R.J.J. yn ysgrifennu iddo pan oedd fyfyriwr. Dywed y Parchedig W. James yn Yr Ymofynnydd (Ebrill 1894), "nid ymddangosodd ond un rhifyn, sef Chwefror 1894, allan o'r wasg am ugain mlynedd nad oedd yn cynwys cynyrch neu gynyrchion ei ysgrifell". Bu'n olygydd am bedair blynedd ar ddeg, 1873—1879, ac o 1881—1887. "Gorffwysodd" y misolyn o ddechrau Mawrth 1879 hyd ddiwedd Awst 1881. Teg ychwanegu na sychodd ei ysgrifbin pan adawodd gadair y golygydd ac y dilynwyd ef gan y Parchedig J. Hathren Davies, a phan ddaeth y cyhoeddiad, yn ddiweddarach, yn eiddo Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn Ionor 1901. Yn llawysgrif R.J.J. y mae gennyf y nodyn hwn, "Contributed to the Ymof. for over 60 years, practically every number".

Rhaid tynnu pen ar y sopyn—y mae'n rhy fawr yn barod, ac nid ef yw'r unig sopyn yn y cae. Cyn diwedd y ganrif safai ar ei draed ei hun. O'm blaen y mae *Ledger* y cyfnod, 1881—1887, yn cynnwys enwau dosbarthwyr a thanysgrifwyr a'u taliadau, rhai ohonynt yn enwau byd-enwog, fel y Parchedig Jenkin Lloyd Jones, Chicago. Dengys fod y cyhoeddiad drwy'r cyfnod yn

talu'r ffordd o fewn i ryw bunt y flwyddyn, er na welaf un tâl i'r golygydd ar y *Ledger* nac arian, hyd yn oed, am *postage stamps*.

Y mae'r plentyn a esgorwyd wedi hir ddisgwyl yn 1847, y baban eiddil yr ofnwyd am ei fywyd, wedi cyrraedd cryfder gŵr, ac erbyn heddiw yn hynafgwr heini ; wedi gwneud yn ei ddydd wasanaeth nid bychan i'r enwad ac i grefydd rydd, ac wedi cyflwyno, ni a obeithiwn, gyfran gref i ddiwylliant Cymru. Goroesodd y rhai a roddodd iddo fywyd a meithrin—ardderchog lu apostolion ein ffydd, byw byth fyddo eu henwau a'u gwaith, y rhai, ni a gredwn, sy'n cyduno heddiw gyda ni i'w gyfarch ar ei ganmlwydd, ac i ddymuno—

HIR OES I'R YMOFYNNYDD.

Y Golygyddion, 1847—1947.

Gan y Parchedig T. Oswald Williams, M.A.

(*Golygydd* Yr Ymofynnydd *1926—1933 ; 1937*)

Mae f'annwyl Ymofynnydd—yn gant oed !
(Egni taer ein crefydd) ;
Y *Gwir* a hawl : o'i gawg rhydd
Ei win ieuanc a newydd.

Ac addef ei Olygyddion—*Ryddid*
Yn arwyddair cyson :
Ei gais yw rhoi neges Ion
A'i ddaioni i ddynion.

Gan mlynedd yn ôl ysgrifennai'r Parch. John Thomas, Pantydefaid yn ei ddyddlyfr,—Aug. 3, 1847. I wrote to Mr. Jones, Bridgend for a dozen of his periodicals,' ac y mae'r Ymofynnydd 'cylchgrawn parchus odiaeth yr Undodiaid' chwedl Dr. Tom Richards o Fangor, yn gant oed eleni. Ni pherthyn i mi adrodd chwedl ei eni na sôn am awgrym Dr. Charles Lloyd (llythyr y Parch. John Thomas, Pantydefaid, Medi 9, 1828), na'r awgrym yn yr *Athraw* Mehefin 1867 yn yr erthygl goffa am John Jones, Aberdâr,—"Nid yw'n annhebyg nad oedd ef (J.J.) gyda'r cyntaf i feddwl am gyhoeddiad misol i'r Undodiaid. Awgrymasai efe un o leiaf mor gynnar a mis Medi, 1835." Antur fawr oedd ei gyhoeddi, a dylasem gofio fod y gwir gan y Parch. John Thomas—*his periodicals*—oherwydd ni chydiodd y Gymdeithas Undodaidd ynddo dan Ionor 1901. Dydd yr antur breifat ydoedd a'r Golygydd yn gorfod sefyll y golled, a phan ai'r golled yn fawr a'r erthyglau'n brin rhoid Yr Ymofynnydd i fyny am dro. Dyna ond odid a gyfrif

am y bylchau aml. Ni wn pwy a'i bedyddiodd ond dywed y Parch. John Davies (Ymof. Rhag. 1902, td. 277),—"Yn 1847 penderfynwyd gan weinidogion yr enwad i gychwyn misolyn ar egwyddorion rhyddid a gwnaed y Parch. J. E. Jones yn olygydd iddo gyda'r Parch. D. L. Evans yn gynorthwywr iddo." Beth bynnag am hynyna, rhyw wyth golygydd a fu iddo yn ystod y can mlynedd ; minnau yn eu cofio bob yr un ond y cyntaf, a thri ohonynt yn blant Llanwenog—yr hen Broffeswr, Arthur Thomas a minnau. Nid anniddorol fydd galw pob cyfres ar enw'r dre y trigai'r golygydd ynddi ar y pryd er mwyn hwylustod gan ddechrau gyda—

Chyfres Penybont-ar-Ogwr : Medi 1847—Ebrill 1854 : Ionor 1859—Mehefin 1865. Argraffwyd gan J. T. Jones, Caerfyrddin a William Leyshon, Penybont. Y golygydd cyntaf oedd y Parch. John Edward Jones a anwyd yng Nghaerfyrddin, Gorffennaf 7, 1801 : addysgwyd yng Ngholeg Caerfyrddin (1817—21), a bu yn weinidog Penybont a'r Betws o 1821 hyd ei farw Chwefror 25, 1866. Ofer weithian chwilio am resymau y gweinidogion dros apwyntio J. E. Jones. Pam yr anwybyddwyd Tau Gimel, ac yntau eisoes wedi cyhoeddi *Yr Hanesydd* (1839), ond cofiwn iddo grwydro cyn diwedd 1847. Beth am John Davies y Llwyn (rhy brysur gyda'i Ysgol) ac Owen Evans, yr un modd. Tybed fod y Parch. John Thomas dan gwmwl oherwydd yn 1847 yr aeth y Parch. Thomas Thomas i Bantydefaid. Ansefydlog hefyd oedd John Davies, Castellnedd, a Rees Davies nemor o lenor. O'u nithio felly, gwelwn fod gennym John Jones, Aberdâr a Dr. Lloyd, ond hwyrach fod y naill a'r llall yn rhy brysur. O leiaf syrthiodd y gofal ar J. E. Jones. O fwrw golwg frysiog dros y gyfres cofiaf am 'Hanner awr gyda'r bardd o Bantycelyn' ; Dadl y Ffydd Gadwedigol rhwng Dr. Lloyd a Gwilym Marles, a rhyw naw o erthyglau gan Wilym Marles ar Theodore Parker. Dyma gyfnod y ffrwgwd rhwng Undodiaeth Feiblaidd ac Undodiaeth Newydd. O ddarllen llawer erthygl y mae fy edmygedd o'r hen flaenorwyr yn cynhyddu, ac enillodd J. E. Jones enw iddo ef ei hun fel Golygydd cyntaf Yr Ymofynnydd.

Cyfres Caerfyrddin. Ionor 1868—Rhagfyr 1872, ond gorfod fu ar y golygydd i wasgu Gorffennaf—Hydref 1868 yn un rhifyn a'i symud gyda'r rhifyn hwnnw oddiwrth Edward Joseph, Heol Mansel, Caerfyrddin (Yn swyddfa'r *Journal* y'i hargreffid yn 1868 : tybed ym mhoethder y drin yn 1868 na fedrai'r *Journal* argraffu'r Ymofynnydd ?) a'i argraffu yn Swyddfa'r *Observer*, gan D. Jenkins, Heol y Wig, Aberystwyth, ond yn Ionor, 1871 yr oedd yn ôl gyda C. & D. Jones, Heol y Brenin, Caerfyrddin.

Naturiol oedd dewis yr is-olygydd cyntaf, yntau wedi dychwelyd yn athro i Goleg Caerfyrddin, yn olygydd. Gŵr o Lanwenog oedd

y Parch. David Lewis Evans—yr hen Broffeswr. Fe'i ganwyd ym Mhenyrallt Rhuddlan, Llanwenog, Gorffennaf 24, 1813, ac fe'i haddysgwyd yng Nghaerfyrddin, 1834—38. Bu'n weinidog Llandyfaen am ryw ddeunaw mis, Bloxham a Milton, Rhydychen gan ddychwelyd ymhen dwy flynedd i gynorthwyo y Parch. J. E. Jones, yn ei ysgol a'i weinidogaeth a chyda'r YMOFYNNYDD. Yn 1850 symudodd i ofalu am Eglwys Colyton, Dyfnaint, lle y bu am bedair blynedd ar ddeg, gan ddychwelyd ar farwolaeth Dr. Lloyd (Medi 13, 1863) i fod yn athro yng ngholeg Caerfyrddin.

Pregethai yr adeg hon yng Nghwmwrdu, Onnenfawr a St. Clears. Yn 1874, symudodd i Lerpwl, ond dychwelodd ymhen blynyddoedd i'w ardal enedigol gan fyw yn Rheol Cottage, Llanybydder, a bu farw yn nhŷ ei fab (Geo. Eyre Evans) yn Nhanybryn, Aberystwyth, Hydref 29, 1902, a gorffwys ei weddillion ym mynwent Alltyplaca.

CYFRES ABERDAR. Mawrth 1873—Chwef. 1879, Medi 1881—Rhag. 1887. Argraffwyd gan Jenkin Howell, 18, Commercial Place, Aberdâr. Nid oedd amheuaeth parthed y golygydd y tro hwn. Yr oedd y Parch. Rees Jenkin Jones, Aberdâr wedi rhoi y weinidogiaeth i fyny oherwydd afiechyd yn 1872, ac am saith mlynedd nid oedd gofal eglwys arno. Mab hynaf y Parch. John Jones ydoedd, wedi'i eni Medi 17, 1835 ; wedi'i addysgu yng ngholeg Caerfyrddin (1855-9) a Glasgow (1859—1862!3) lle y graddiodd yn M.A. Bu yn weinidog Aberdâr 1864—1872 : 1879—1909. Ysgolfeistr ac hanesydd yr enwad ydoedd a gwelir hynny yn glir yn y gyfres ac yng nghylchgronau Cymru. Yn ei ddydd nid oedd lenor mwy cyfarwydd na thoreithiog nag ef gan yr enwad yng Nghymru, ac yr oedd ei enw yn adnabyddus drwy Gymru benbaladr. Gwnaeth ddiwrnod da o waith a bu yn ffyddlon i'r YMOFYNNYDD hyd ei farw Hydref 15, 1924, yn 89 mlwydd oed.

CYFRES CEFNCOED : Ionor 1888 hyd ddiwedd 1900. Argraffwyd gan Jenkin Howell, Aberdâr ac ym Merthyr, gan Gwmni Argraffu y *Times*, John Street.

Nid oedd yna nifer mawr yn barod pan ymddiswyddodd y Parch. R.J.J. Yr oedd y Parch. T. Thomas ym mlaen mewn dyddiau a William James yn 'merchant-preacher,' chwedl T.T. O leiaf syrthiodd y coelbren ar Hathren. Brodor o Lanbedr ydoedd, a gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd y Cefn, gydol ei oes. Fe'i ganwyd yn ardal Talsarn, Hydref 29, 1855, ond dychwelodd i fyw i ardal Llanbedr, a chymerth enw afon fach Hathren, y chwaraeodd ar ei glan yn enw iddo ef ei hun. Fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Caerfyrddin (1873-7), ac aeth yn weinidog Cefncoed, lle y bu hyd ei farw Mawrth 12, 1910. Gŵr llawn ac annwyl oedd Hathren, llawn ym mywyd cyhoeddus ei ardal, a llawn yn ei eglwys a'i enwad. Cafodd gynhorthwy gwŷr llengar, ac yr oedd graen ar yr

Ymofynnydd dano. Mawr hoffaf i erthyglau T.T. ar John James, Gellionnen, rhai o erthyglau hanes goreu a gyhoeddwyd ynddo am y rhoddai ' chapter and verse ', chwedl y Sais am bob ffaith a groniclai.

Cyfres Llandysul. Ionor 1901—Rhagfyr 1925. Argraffwyd gan Mri. J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul. Y Golygyddion oedd Y Parchedigion T. Arthur Thomas (1901-25), gyda chynorthwy David Evans (1901-3), a William James (1903—Medi 1907), a'r Prifardd Sarnicol yn golygu'r farddoniaeth am ryw ddeng mlynedd. Y mae'r Parch. David Evans, ' The Last of the Barons,' yn fyw ac yn dal i ysgrifennu erthygl ar ôl erthygl mewn Cymraeg persain. Ni wn sut y gadawyd iddo ymddiswyddo mor gynnar. Ni wn am neb yn fyw i gystadlu ag ef am nifer ei erthyglau. Y mae'n ddishysbydd. O feddwl am yr erthygl hon dechreuais gyfrif fy erthyglau i ond blinais ymhell cyn gorffen. Ryw ddydd fe wnaf y gwaith eto, ond gwn i mi gyhoeddi pregeth a chyfieithad o *Hanner can Pwynt* yn y Coleg, ac ugeiniau o erthyglau o'r tro yr ysgrifennais "Fŵd o Hiraeth" yn 1916 hyd heddiw. Credaf fy mod a dweyd y lleiaf yn ' good second ' iddo a chofier y mae gennyf ddeng mlynedd ar hugain mewn llaw ond ' Duw a ran hyd yr einioes.' Ganwyd y Parch. William James yng Nghamnant-fach (Garthowen yn awr), Ebrill 13, 1848, ac fe'i haddysgwyd yng Nghaerfyrddin (1863-6) ; Manchester New College (1866-9), Edinburgh (1869-70) a graddiodd B.A. Llundain, 1871. Bu'n weinidog Aberdâr (1873-9), a Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa a Chapel y Graig, Llandysul (1879—1887). Fe'i cofir yn hir am erthyglau Nyth y Frân a'i Wersi i'r Ysgol Sul. Bu farw Hydref 26, 1907 yn 59 mlwydd oed. Y mae gan bob un ei farc ei hun ar weinidog a dyn, a rywsut, ni wn i pam yn iawn, ond saif William James yn uchel iawn yn fy marn i.

Bu'r Parch. Arthur Thomas yn olygydd am chwarter canrif. Fe'i ganwyd ym mhentre Cwrtnewydd, ac fe'i haddysgwyd yng Nghaerfyrddin (1891-5), a bu'n weinidog Pantydefaid a Llandysul drwy'i oes hyd ei farw ar Fehefin 8, 1932. Ni phroffesai Arthur i fod yn llenor. Gwr cyhoeddus a dylanwadol ar y Cyngor Sir ydoedd, ond yr oedd ei gymeriad ffein yn ennill erthygl oddiwrth bawb a phobun, a chadwodd Yr Ymofynnydd yn fyw am chwarter canrif. Nid gorchwyl bach, cofier. Addefai William James nad oedd iaith y cylchgrawn ' mor glasurol ag y disgwylid ond amcanent ei wneuthur yn ddarllenadwy.'

Cyfres Llanbedr. Ionor 1926—Rhagfyr 1933 a'r flwyddyn 1937 yn ystod afiechyd y golygydd.

Goreu po leiaf a ddwedaf am Olygydd Cyfres Llanbedr—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., gweinidog Caeronnen a Bron-

deifi oddiar 1915. Amcenais loywi Cymraeg YR YMOFYNNYDD. Ni wn a wylltodd hyn y gweinidogion oherwydd ofnent ysgrifennu. Pwy ddydd ail ddarllenais Gyfres Llanbedr ar ei hyd, gydag hanes y Capelau Undodaidd yng Nghymru. Y mae golwg gan ddyn ar ei blentyn, ac nid oes arnaf innau gywilydd o Gyfres Llanbedr.

CYFRES CAERDYDD. Ionor 1934—1936. Y golygydd oedd y Parch. T. L. Jones, wedi ei eni yng Nghribyn, a'i addysgu yng Nghaerfyrddin a Rhydychen am ysbaid. Ni fwriadaf roi ei hanes, ac yntau yn fyw i amau a ddwedaf. Bu'n weinidog y Notais (1929—31) ; Cefncoed (1932—35) ; Caerdydd (1936-7) a Leytonstone, Llundain (1938—?).

CYFRES TREBANOS. 1938—1947—? Y golygydd yw John David Jones, gweinidog Gellionnen a'r Graig Trebanos. Y mae'n beryglus dweyd dim am y golygydd ac yntau'n eistedd yng nghadair y golygydd a'i bensil glâs yn ei law. Ni bydd dim drwg i mi roi y manion. Fe'i ganwyd yn Ffynnon Ddewi, gerllaw Llanddewibrefi, ond ni rof y flwyddyn. Fe'i haddysgwyd yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth (1916-7 ; 1918-21, B.A.), Caerfyrddin (1921-5, B.D.). Bu'n gweinidogaethu ym Mhontypridd (1925-6) ; Hinckley (1927-32), a Gellionnen a Threbanos (1932—?).

Perygl cyfres Llanbedr oedd bod gormod o stamp y golygydd arni. Perygl mwyaf cyfres Trebanos yw bod rhy fach o waith y golygydd ynddi ac yntau yn medru Cymraeg cystal.

Carwn ddarlunio pob golygydd—rhoi pen picture ohonynt bob yn un ac un ond nid yma y fan na'r lle. Medrir adnabod pob cyfres ond adnabod y golygydd canys ni fedr golygydd lai na rhoi ei stamp ei hun arni. Ei blentyn ef ydyw a daw'r erthyglau fel gwe y pryfgopyn megis o'i gorff ef ei hun. Llwyddodd y teidiau ei gadw yn fyw am ganrif. Y mae perygl i'r do bresennol ei anwybyddu gan ei droi o'r neilltu yn ddifater. Dyma'r unig ddolen rhyngom a'n gilydd a rhyngom a'r Undodiaid ar wasgar. Y mae pris popeth yn codi ac fe'i goddefwn, ond ofnaf y grwgnachwn fod pris YR YMOFYNNYDD wedi codi. Cwynir nad yw yn ddigon diddorol ond y mae'i dudalennau yn agored i rywun a gred y medr wneud gwell gwaith. Gallasem gael rhagor ynddo i'r plant er ennyn eu diddordeb ynddo. Clywsom y golygydd yn rhyw led awgrymu fod ei dymor yn dirwyn i'r pen a phwy wedyn ? Y mae'r amser a'r dyn hyd yn hyn wedi cyd-gwrdd, a sicr bod yna rywun yn barod i gydio ynddo a'i estyn ymlaen fel ' tors olau ' i'r genhedlaeth nesaf gan ei hadgofio fod eraill wedi llafurio a ninnau wedi mynd i mewn i'w llafur hwynt. Ni wn a wyddom werth YR YMOFYNNYDD, ond sicr nid yr anrhydedd lleiaf a fedr dyn gael yw bod yn *Olygydd yr* YMOFYNNYDD.

Argraffwyr "Yr Ymofynnydd".

Medi 1847—Rhagfyr 1848. Josiah Thomas Jones, Heol Las, Caerfyrddin.
Ionor 1849—Ebrill 1850. William Winstone, Penybont.
Mai 1850—Rhagfyr 1850. D. Evans, Swyddfa'r "Principality", Caerdydd.
Ionor 1851—Ebrill 1854. William Leyshon, Penybont.
Ionor 1859—Mehefin 1865. William Leyshon, Penybont.
Ionor 1868—Mawrth 1868. Edward Joseph, Heol Mansel, Caerfyrddin.
Ebrill 1868—Mehefin 1868. Swyddfa'r "Journal", Caerfyrddin.
Gorffennaf 1868—Rhagfyr 1870. D. Jenkins, Swyddfa'r "Observer", Aberystwyth.
Ionor 1871—Rhagfyr 1872. C. and D. Jones, Heol y Brenin, Caerfyrddin.
Mawrth 1873—Chwefror 1879. Jenkin Howell, Commercial Place, Aberdâr.
Medi 1881—Rhagfyr 1896. Jenkin Howell, Commercial Place, Aberdâr.
Ionor 1897—Chwefror 1897. Cwmni Argraffu y "Times", Merthyr.
Mawrth 1897—Rhagfyr 1900. Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst", Merthyr.
Ionor 1901———? J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.

Cipdremiau.

Gan y Parchedig David Evans (Cyd-olygydd Yr Ymofynnydd, 1901—1903).

Yr Ymofynnydd yn gant oed! Oni chlywir si rhywbeth pell yn yr ymadrodd? Ac eto, nid mor bell ydyw, o gofio ohonof nad yw ond ychydig gyda degaid yn rhagor na'r adeg y gwelais ole dydd gyntaf. Dechreuodd ei yrfa yn 1847. Gwir yw nad difwlch a fu ei ymddangosiad. Syrthiodd i gwsg dymor neu ddau; nid cwsg trwm, ychwaith, a fu ei gwsg; megis cyntun bach, yn hytrach, er adennill ohono ei nerth a'i galluogai i gyrraedd ei ganmlwydd. O ran hynny, dylasai fod wedi marw ymron yn ei febyd, heb obaith am atgyfodiad. Sylwer ar a ddywed awdur *Llenyddiaeth fy Ngwlad* amdano: "Yr Ymofynnydd, 1847. Cychwynwyd y cyhoeddiad hwn yn 1847, gan y Parch. John Jones,

Penybont, yr hwn a fu yn ei olygu gyntaf, ac ar ei ôl ef ymgymerwyd â'r olygiaeth gan y Parch. John Jones, M.A., Aberdâr, ac argreffid ef gan Mr. J. Howell, Aberdâr. Deuai allan yn fisol, a'i bris oedd tair ceiniog. Ni pharhaodd yn hir. Amcan ei gychwyniad allan ydoedd er 'gosod ger bron y cyhoedd yr egwyddorion a ddelir allan gan y Bedyddwyr Albanaidd'." O ddarllen y llinellau, oni'n hatgofir o arferiad dywedyd am Almanac neilltuol—peth ohono'n wir, a chryn dipyn heb fod felly. *Ni pharhaodd yn hir*! Ac eto, dethlir ei ganmlwydd yn y rhifyn hwn. Onid anodd yw rhoddi mynegiad i gynifer o gamsyniadau tu mewn i gwmpas mor gyfyng. A'r gwrthuni pennaf yw a ddywed am amcan YR YMOFYNNYDD.

Ceisiasoch gennyf, Mr. Golygydd, daflu cipdrem frysiog—credaf i chwi ddefnyddio a phwysleisio'r gair brysiog, oni chamsyniaf—dros rifynnau'r canmlwydd, a sylwi ar a fu, imi'n bersonol, y nodweddau ohono a apeliai ataf. Nid gorchwyl hawdd yw hyn tu mewn i gwmpas un erthygl fer; eithr gwnaf fy ngorau.

Dechreuais ddod i adnabyddiaeth ohono tua'r flwyddyn 1868, pan oedd y Proffeswr D. L. Evans yn olygydd. Braidd y mae angen dywedyd imi fod yn ddarllenwr cyson ohono o'r adeg honno hyd yn awr; a phob amser edrychwn yn awyddus am ei ymddangosiad o fis i fis. A rhywbryd—pa bryd, ni chofiaf—daeth imi'r cyfle a'r fraint bleserus o ddarllen yr ôl-rifynnau. O'u darllen, tybiwn glywed ohonof swn y brwydrau diwinyddol yn syrthio ar fy nghlustiau; a rhoddai'r brwydro imi bleser digymysg, ryfelwr diwinyddol fel ag oeddwn. A phengampwyr oedd y brwydrwyr—Owen Evans (Cefn), John Jones (Aberdâr), J. E. Jones (Penybont, ei olygydd), y Proffeswr D. L. Evans, Thomas Thomas (Pantydefaid a Chapelygroes), ac eraill rhy luosog i'w henwi. Nid oedd y fath beth a pheidio â defnyddio arfau yn y rhyfel hwnnw; er mai geiriau oedd yr arfau, eto, geiriau llym oeddynt; ac o ddarllen ohonof eu cynhyrchion o fis i fis, gwnaed argraffiadau ar fy meddwl di-brofiad na ddilewyd mohonynt. Undodwyr a elwid yn "Hen ysgol" oedd y personau a ennwyd uchod—bob un ohonynt. Nid oedd dydd yr "Ysgol Newydd" wedi dechrau gwawrio bryd hynny. Na thybied y darllenydd mai erthyglau diwinyddol oedd y cwbl o gynnwys ein cylchgrawn ym mlynyddoedd cyntaf ei yrfa. Ceid ynddo erthyglau o natur addysgiadol. Da iawn y cofiaf, er enghraifft, am y gyfres erthyglau dan y pennawd, "Garddwriaeth y Bwthyn." Erys cryn lawer o awgrymiadau'r erthyglau hynny yn fyw eto ar fy nghof; a thalai'r ffordd i'r hoff o arddwriaeth ymgydnabyddu â'u cynnwys. Pwy oedd eu hawdur, ni chofiaf; nad pwy ydoedd, yr oedd yn feistr ar ei bwnc.

Beth am y ddau ymadrodd "Hen Ysgol" ac "Ysgol Newydd"? Gyda dyfod o Wilym Marles i'r maes y daeth y ddau i fod yng Nghymru, o leiaf; yntau'n ddisgybl proffesedig i'r enwog Theodore

Parker ; ac fel y bu yn achos meistr ei feddwl, felly y bu yn ei achos yntau ; bu'r syniadau newydd yn achlysur i erledigaeth lem o du pleidwyr yr "Hen Ysgol." Daeth trwst ysgafn o'r frwydr i'r amlwg yn y ddadl a fu rhwng Dr. Lloyd, Prif Athro Coleg Caerfyrddin, a Gwilym, ar y pwnc o "Ffydd Gadwedigol"—dadl a barhaodd am ran fawr o flwyddyn ar ddalennau'r YMOFYNNYDD. Cyn dechrau ysgrifennu'r llenellau hyn, bum yn darllen a ysgrifennwyd gan y ddeuddyn ; ac ni allwn lai na sylwi ar yr ysbryd boneddigaidd a'u nodweddai—ysbryd a ddylai nodweddu pob math ar ddadleuon ; oblegid nid amcan dadl yw gorchfygu o un blaid blaid arall, eithr dod i wybodaeth o'r gwir, hyd y mae hynny'n bosibl. Gorchwyl anodd yw pob ymchwil am y gwir.

Erthyglau bywgraffol Gwilym ar Theodore Parker, modd bynnag, a erys ar fy nghof fwyaf byw o bopeth a ddarllenais o'r hen rifynnau. Buont, imi, yn agoryd drws i fyd hollol newydd, na ddaeth i'm meddwl, hyd hynny, un dirnadaeth fodoli ohono. Dechrau'r erthyglau yn rhifyn Mawrth, 1864 ; ac ymddangosent fis ar ôl mis hyd derfyn y flwyddyn—cynifer ag un ar ddeg ohonynt. Ymhen rhai blynyddoedd wedi hyn, bûm mor ffodus a llwyddo i ddod yn berchen ar y cwbl o weithiau cyhoeddedig yr Americanwr eithriadol athrylithgar ; a chynt y gwerthwn bob llyfr a feddaf nag y gwerthwn y cyfrolau amhrisiadwy hyn. Onid gresyn ydyw i'r ddau—Parker a Gwilym—ddod yn nôd i saethau llym eu herlidwyr ? Onid gorchwyl anodd yw dysgu o ddynion y wers o oddefgarwch yn y mater o opiniynau—opiniynau diwinyddol yn enwedig? Nid yw'r gwir perffaith, eto, ym meddiant neb dynion ; rhyw gipdrem, aneglur iawn yn fynych, ar y gwirionedd yw'r eithaf y medr undyn ymgyrraedd ato. Boed rhyddid i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar, yw'r rheol iawn.

O ddod ohonof yn nes atom, oes rhywun a fu wrth lyw'r YMOFYNNYDD y caraf yn arbennig ei gofio ? Onid naturiol ydyw y try fy meddwl at Mr. James, fy hen athro a garwn mor fawr, a Mr. Arthur Thomas, un o'm disgyblion cyntaf, a'm cyfaill didwyll ? Bu'r ddau yn gydolygwyr hyd y bu raid i Mr. James ymddeol, ar gyfrif ei iechyd amharus. Daw i'm cof, a mynych y darllenaf erthyglau byw Mr. James tan y pennawd "Nyth y Fran," erthyglau a fu'n destun siarad, nid i Undodiaid yn unig, eithr hefyd i wrth-Undodiaid. Yn ddi-os, i'm tyb i, o leiaf, adeg euraid YR YMOFYNNYDD a fu tymor golygyddiaeth y ddau.

Pallu a wna gofod imi ymhelaethu ; efallai, yn wir, fy mod eisoes wedi croesi'r terfynau caniatadwy. Hoffwn son am eraill a fu wrth lyw ein cylchgrawn ; eithr rhaid yw gadael peth o'r maes i eraill.

Heddiw, pan yw'r YMOFYNNYDD ar fin sangu ar dir canrif newydd yn ei hanes, daw'r gofyniad i'm meddwl—beth am y sefyllfa ? Dyddiau rhyfeddol o anodd yw ein dyddiau ni ; yn enwedig ; ie,

yn enwedig ym myd crefydd. Rhyw syrthni eithafol a ddeil fyd crefydd yn ei chrafanc megis â gefynnau o haearn. Onid gyda phriodoldeb y gellir cymhwyso geiriau'r Emyn at y sefyllfa y cawn ein hunain ynddi ?

"'Rym, ein Duw, yn ofni weithiau
Mai rhy rwydd yw'n bywyd ni ;
Ac y dichon i ni golli awydd
Am dy gwmni di."

A achubir YR YMOFYNNYDD rhag iddo syrthio i afael y syrthni difaol ei dylanwad ? A adewir iddo—yr unig ddolen gydiol cydrhwng ein Heglwysi—i farw ? Na ato Duw i hyn ddigwydd.

"Y Tri Golygydd".

YN *Cymru*, cyfrol 1918, ceir cyfres o ysgrifau dan y pennawd—"Rhai a hoffaswn weled". Ysgrifau dienw ydynt, ond gesyd pob golygydd ei stamp ar ei waith, a gwelwn ninnau Syr Owen M. Edwards, hanesydd a chymwynaswr Cymru, yn eu llunio. Sôn y mae yn y drydedd o'r gyfres am dri golygydd yr hoffasai ef eu cwrdd—Ieuan Glan Geirionnydd, golygydd a chychwynnydd *Y Gwladgarwr* (1833—1835) ; Alun, golygydd a chychwynnydd *Y Cylchgrawn* (1834—1835) ; John Edward Jones, golygydd a chychwynnydd YR YMOFYNNYDD.

Myfyria'r ysgrifennydd yn hwyr y dydd ; daw'r nos, ac o'r ymdeimlad o unigedd y cyfyd rhyw ofn yn ei galon . . . ond gadawaf i Syr Owen M. Edwards ddweud ei brofiad . . .

"Nid oedd raid i mi ofni dim wrth feddwl am gwmni tri golygydd y meddyliwn amdanynt. Yr oedd pob un o'r tri yn weinidog yr efengyl ; ac y mae rhyw dynerwch rhyfedd wedi ei fagu wrth gysuro'r trallodus a chodi calon y gwan yn enaid yr efengylydd meddylgar a gwylaidd. Yr oedd pob un o'r tri yn gwybod am fethiant ymdrech ddewr fel golygyddion hefyd, ac am hiraeth ofer am weled clust fyddar y cyhoedd yn troi i wrando ar eu llais . . .

* * *

"Gŵr hynaws ddaw eto y tu ôl i Ieuan Glan Geirionnydd a Alun, sef John Edward Jones, Penybont ar Ogwr, golygydd cyntaf YR YMOFYNNYDD. Gŵr dwys a thawel ydyw, a'r wyneb yn urddasol a difrifddwys. Nid oedd ei Undodiaeth yn tarfu dim arnynt hwy ; onid oedd sylw caredig yn *Y Gwladgarwr* am farw T. Evans yn 1833, y gweinidog Cymreig cyntaf ymhlith yr Undodwyr yn y Deheudir ? Ac yr oedd yn debyg i'r ddau olygydd arall. 'Yr

oedd yn gall a phwyllog a boneddigaidd' fel golygydd, ebe Gwilym Marles, 'ei ysbryd mwyn' oedd nerth ei ddylanwad mewn gwleidyddiaeth, ac 'yn esmwyth a diboen yr aeth y gŵr da hwn i'w hir orffwysfa ddydd Sabbath, Chwefror 25, 1866'. Yr oedd yn iau o chwe mlynedd na Ieuan, ac o bedair blynedd nag Alun. Ym Medi 1847 cychwynnodd YR YMOFYNNYDD, deg neu ddeuddeg mlynedd wedi terfyn y ddau gylchgrawn arall.

"*Y Gwladgarwr* oedd cyhoeddiad mwyaf defnyddiol Cymru, *Y Cylchgrawn* oedd y mwyaf cain a detholedig, YR YMOFYNNYDD oedd y mwyaf ysgolheigaidd. Un o dref glasurol Caerfyrddin oedd J. E. Jones. Cafodd athrawon dysgedig a manwl, a bu'n efrydu rhif a mesur a ieithoedd ar hyd ei oes fel gweinidog ac athro ym Mhenybont ar Ogwr. Cafodd wŷr egniol a meddylgar, hoff o wybodaeth yn gymorth iddo—D. L. Evans ddadleugar, Owen Evans ffyddlon a gweithgar, J. Rhys Merthyr wasanaethgar, holl feirdd glannau Clettwr a Chynon, ac yn enwedig Thomas Stephens. Y mae traethodau Thomas Stephens,—ar arwyddfeirdd Cymru a Iolo Morgannwg a llenyddiaeth y canol oesoedd,—yn rhoddi gwerth parhaol ar y cyfrolau. Yr oedd neges YR YMOFYNNYDD yn fwy pendant na neges y lleill, sef bod yn llwybr i rydd-ymofyniad. Emynau rhyddid Iolo Morgannwg, gwleidyddiaeth oleuedig y golygydd, gwawdio ofergoeledd yr oes, ymosodiadau Thomas Stephens ar ofergoeledd beirdd—yr oedd y rhai hyn wrth fodd cyfangorff y Cymry ; ac ysgrifennai rhai mor uniawngred a Llawdden a Huw Derfel iddo. Ond yr oedd yn y rhifynnau ysgrifennu chwerw a maith ddysgedig ar bynciau diwinyddol—y pechod gwreiddiol, athrawiaeth yr iawn, ysbrydoliaeth y Beibl ; ac ai'r yn aml yn bersonol. Ond byddai'r golygydd wrth y llyw, a rhyddid meddwl yn nôd o'i flaen, yn ceisio tawelu a heddychu y pleidiau dig. Ond dan gwyno y gweithiai ; nid oedd ball ar ysgrifennwyr, ond yr oedd y derbynwyr yn brin. Er mawr siom iddo gorfod rhoi'r cyhoeddiad i fyny ar ddiwedd Ebrill 1854. Ond yn Ionawr 1859 adfywiodd gyda beirdd newydd a chyda traethodau newydd gan Thomas Stephens. Daliodd ymlaen hyd ddiwedd 1864 ; yna galwai llesgedd y golygydd am "ychydig orphwys". Ffarwelia a'r YMOFYNNYDD, ac nid oedd ganddo fawr dros flwyddyn arall i fyw. Y mae ei gyfrolau'n ddiddorol a goludog, ceir oriau mwynion ynddynt gyda dysgedigion Merthyr ac Aberdâr a chyda beirdd Ceredigion.

"A diddan mewn dychymyg oedd cwmni'r tri golygydd—Ieuan dyner oleubryd, Alun lygatddu lenyddol, a J. E. Jones ddwys ysgolheigaidd. Y mae'r tri'n fyw ym mywyd Cymru, gwnaethant eu rhan i ddeffro eu gwlad. A mwyn i minnau gyda'r hen gyfrolau yn fy ymyl yw edrych o bellter hyfryd ar droion eu gyrfa. Rhydd cwmni'r tri ysbrydiaeth newydd, a diddorol gennyf yw eu cyflwyno i astudiaeth barchus bechgyn a merched ieuainc Cymru."

Y Cyfarfodydd Blynyddol.

CYNHALIWYD yng Nghapel y Bryn ar Awst 12 a 13. Dechreuwyd yr oedfa nos Fawrth gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a phregethwyd gan y Parchn. Noel James, B.A., Pontardawe a J. H. Coram Davies, B.A., Bryste.

Rhoddwyd bore Mercher yn gyfangwbl i drafodion y Pwyllgor dan lywyddiaeth Mr. D. J. Bowen, Trebanos.

Yn oedfa'r prynhawn cawsom araith y Llywydd, a hyfryd ydoedd gwrando ar Mr. Bowen yn adrodd yn syml ei brofiad crefyddol. Yr oedd ei serch tuag at yr achos a'i ffyddlondeb di-ball yn disgleirio drwy ei eiriau. Yr oedd dylanwad yr hen ffyddloniaid yn amlwg arno, ac yn ei araith rhoddodd i ni gipolwg ar fywyd y gynulleidfa yn Nhrebanos, lle y mae Mr. Bowen wedi gwasanaethu fel trysorydd am fwy na chwarter canrif. Pregethwyd yn yr oedfa gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Cefn Coed, olynydd Mr. D. J. Bowen yn llywyddiaeth y Gymdeithas. Dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. J. A. Carrara Davies, Belper, a diolchwyd yn gynnes i'r llywydd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parchn. T. J. Jones, B.A., Hindley, a J. D. Jones, B.A., B.D., Gellionnen, y Parch. S. J. Thomas, Cwrtnewydd yn arwain y gwasanaeth.

Cafwyd cyfarfodydd lluosog—y cynulliadau ddim llawn mor lluosog ag arfer, y pregethau'n amserol, a pharatoadau ardderchog ar gyfer pawb.

COFNODION Y CWRDD BUSNES.

CYNHALIWYD yng Nghapel y Bryn ar Awst 13, y llywydd, Mr. D. J. Bowen, Trebanos, yn y gadair.

Trafodwyd a phenderfynwyd a ganlyn :—

1. Gwahodd llywydd y Gymdeithas Gyffredinol (y Parchedig Lawrence Redfern, Lerpwl) i'n plith ar Sul yn yr Hydref i gynnal gwasanaeth ym Mrondeifi yn y prynhawn ac yn y Graig, Llandysul, yn yr hwyr.

2 Gosod cof-nod ar adfeilion Capel Tomos Glyn Cothi.

3 Cynnal cyfarfod yng Nghapel y Bryn i drafod cadwraeth gweithredoedd ein capeli.

4 Ystyried mewn cyfarfod arbennig sefyllfa myfyrwyr ar gyfer y weinidogaeth.

5 Pasiwyd gyda mwyafrif, Mr. John Jenkins, Tancoed, yn cynnig, a Dr. D. J. Davies, Aberystwyth, yn eilio, "Ein bod yn condemnio yn y modd llwyraf barhad gorfodaeth filwrol".

6 Etholwyd swyddogion am y flwyddyn—*Llywydd* : y Parch. J. Marles Thomas, M.A. ; *Is-Lywydd* : y Prif-Athro J. Islan Jones, M.A. ; *Trysorydd* : Mr. D. Jones, Maesyrhaf, Llanbedr ; *Ysgrifennydd* : Y Parch. S. E. Bowen.

7 Bydd Cyrddau Hydref yng Nghefn Coed ar Hydref 29 a 30.

S. E. Bowen, *Ysgrifennydd.*

Priodas.

Awst 2, yng Nghapel y Bryn, JOHN HERBERT JONES, Bronhaf, Gorsgoch, a MARTHA BLODWEN PUGH, Bryngranod, Cwrtnewydd. Gweinyddwyd gan y Parchedigion S. E. Bowen a S. J. Thomas.

Marwgofion.

Ar Orffennaf 5, yn Ysbyty Clydach, THOMAS JEFFREY TURNER, baban pedwar mis oed Mr. a Mrs. Turner, Graig Road, Trebanos. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Mercher dilynol, y Parch. J. D. Jones yn gweinyddu. Cydymdeimlir yn fawr â'i rieni ac â'j ddwy chwaer fach. "Aeth diniweidrwydd at ei Dduw."

Ar Orffennaf 12, HERBERT GRIFFITHS, M.I.M.E., 120, Swansea Road, Trebanos, yn 80 mlwydd oed. Bu farw yn ddisymwth, yn union wedi iddo gyrraedd ei gartref ar ôl treulio un o ddyddiau hyfrytaf ei fywyd ym Mhenybont-ar-Ogwr. Dyn a wnaeth y gorau o'i gyfleusterau oedd Mr. Griffiths. Ar hyd ei oes nid esgeulusodd ddiwyllio'i feddwl, ac ym mlynyddoedd ei henaint bu'r cysur a dderbyniodd o lyfrau o Lyfrgell y Sir yn foddion i gadw ei ysbryd yn ifanc. Yr oedd ganddo ddiddordeb neilltuol yn nhyfiant ei ardd. Experimenter oedd hyd y diwedd, ac yr oedd ganddo ofal mawr am ei dŷ gwydr. Codwyd ef mewn ardal amaethyddol ym mharthau uchaf Cwm Tawe, ond i'r glofeydd y rhoes ei fywyd ar ei hyd. Gweithiodd mewn amryw fannau, a chasglodd brofiad helaeth o'r diwydiant glo. Gweithiodd ei hun ymlaen nes ei wneud yn Member of the Institute of Mining Engineers. Gan y dô bresennol adnabyddid ef yn gyffredin fel Griffiths y Manager. Bu ganddo law yn sinco rhai o byllau enwog Sir Forgannwg. Cwmniwr diddan ydoedd, a gallai adrodd stori ddiddorol. Tynnai o gof llawn a phrofiad helaeth, ac yr oedd ei adnabyddiaeth o'r wlad a'i phoblogaeth o Rydaman i Fargam yn beth rhyfeddol. Gwyddai am y ffermydd yn y lleoedd mwyaf unig. Yr oedd ei gysylltiadau cynnar gyda'r Bedyddwyr : perthynas agos iddo oedd y diweddar Barchedig Herbert Morgan, M.A., Aberystwyth. Wedi iddo sefydlu yn Nhrebanos gwnaeth ei gartref crefyddol yng Ngellionnen a'r Graig. Claddodd ei briod rai blynyddoedd yn ôl, a

chodasant deulu mawr. Gyda'r plant a'u cysylltiadau y mae'r cydymdeimlad mwyaf. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Iau dilymol, y Parchedigion J. D. Jones a Dl. John yn gweinyddu.

Ar Orffennaf 15, ELIZABETH JAMES, Park Stores, Trebanos, yn 55 mlwydd oed. Dechreuodd glafychu yn agos i flwyddyn yn ôl, ond dioddefodd ei chystudd hyd y diwedd mewn sirioldeb gobeithiol. Torrwyd hi i lawr yng nghanol ei dyddiau, yng nghanol ei chynlluniau, ac y mae'r cydymdeimlad mwyaf gyda'i phriod, Mr. William James, a'r chwaer a'r brawd, ac a chysylltiadau lluosog y teulu. Yr oedd rhywbeth yn ymarweddiad Mrs. James yn deffro cyfeillgarwch. Rhywbeth anneffiniol ydoedd, rhyw ddylanwad ysbryd. Ni ellid bod yn ei chwmni heb deimlo'r melyster hwn yn treiddio o bersonoliaeth i bersonoliaeth. Ar ei gwefus bob amser yr oedd y gair croesawus. Yr oedd ganddi galon fawr, a theimlad cyfeillgar yn llifo allan ohoni. Yr oedd ei phresenoldeb mewn cwmni i'w deimlo. Yn rhedeg drwy'i bywyd yr oedd sens o'r santaidd, a hwnnw wedi ei ddatblygu tu hwnt i'r cyffredin. Gwyddom y gallai fod yn llawen, yn llawen iawn yn hoen ei hiechyd a'i nerth. Yr oedd yn mwynhau bywyd, a brwydrodd am gael byw hyd yr awr ddiwethaf. Daliodd i wenu hyd y diwedd. Sirioldeb wedi ei sylfaenu ar ddifrifwch oedd sirioldeb Mrs. James, difrifwch swynol yn tarddu o adnabod y pethau tragwyddol sy'n perthyn i'n bywyd. Hyfforddwyd hi yn gynnar i gerdded y llwybrau sy'n arwain i'r cysegr. Yr oedd arni ddylanwad ei mam, Mrs. Rees, Pheasant Bush. Yn y gynulleidfa cyfrifid Mrs. James ymhlith y ffyddloniaid. Carai bethau'r cysegr, ac yr oedd ei meddwl arnynt yn ei chystudd trwm. Yn ffyddlon yn oedfa'r bore, yn ffyddlon yn oedfa'r hwyr, yn ffyddlon yn yr ysgol gân, yn ffyddlon yn y cwrdd gweddi—carai'r pethau hyn. Ffurfiasant gwaliti ei bywyd, rhywbeth na ellir ei osod mewn bedd. Erys yr esiampl yn ddylanwad byw. Ysgrifennodd ar ein calonnau ei choffadwriaeth mewn adgofion melys. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol wrth Gellionnen, y Parchedigion J. D. Jones, W. J. Rees, Dl. John a Lewis Morgan yn gweinyddu.

Gorchwyl blin iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth SIDNEY CLIVE JAMES, Teify Side, Cwmann, Llanbedr, a ddigwyddodd ar Awst 3, ac yntau ond 37 mlwydd oed. Dechreuodd waelu'n agos i ddeng mlynedd yn ôl, ac am flynyddoedd bu'n analluog i ddilyn unrhyw waith. O dro i dro treuliodd fisoedd lawer yn yr ysbyty yn Aberystwyth, bryd arall gartref yn y gornel neu yn ei wely, ond er pob ymdrech yr oedd yn amlwg ers tro maith mai colli tir yr oedd. I'r priod golygai hyn ofal a gwasanaeth mawr, a bendithiwyd hi â nerth ac amynedd i weini arno hyd y diwedd. Bachgen rhagorol iawn oedd Sidney, bachgen a'r ddawn ganddo i wneud ffrindiau—yn wir ai pawb yn ffrindiau iddo wedi iddynt ddod i gyswllt gweddol ag ef. Y mae gennym brofiad helaeth o weld pobl ieuainc yn nychu a gwaelu, ond, a chyfrif hyd a natur ei gystudd, credwn na welsom neb a ddangosodd y fath amynedd a sirioldeb dewr. Yn ei gyni pennaf nid achwynai ; yr oedd ei wên a'i ysbryd yn pelydru sirioldeb. Gadawodd briod, mab bychan, rhieni, tair chwaer, dau frawd i wylo ei farw cynnar. Hyderwn y cânt gysgod yr adain ddwyfol.

Yn ôl ei ddymuniad claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capel y Fadfa yn ymyl hen gartref ei briod, yr angladd yn gyfyngedig i'r perthynasau ac ychydig gyfeillion. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchedig Mr. Edwards, curad Llanbedr, ac yn y capel gan y Parchedigion E. O. Jenkins ; T. O. Williams ; Mr. Jones, ficer Pencarreg ; a W. M. Jenkins, Talgarreg.

Awst 7, ar ôl cystudd byr ond caled iawn, NANCY MYFANWY JONES, annwyl ac unig ferch John a Hannah Jones, Frylands Farm, Wineham, Swydd Sussex, yn 17 mlwydd oed. Mab y diweddar David ac Anne Jones, Fadfa, Talgarreg, yw'r tad, a merch Thomas a'r diweddar Nancy Jones, Crugyreryr Isaf, yw'r fam. Treuliodd Nancy o dro i dro fisoedd lawer yn ardal Talgarreg, ac yr oedd yn ffefryn gan bawb. Geneth fywiog, ysbrydol, nwyfus ydoedd, pert o gorff, meddwl ac ysbryd. Ergyd trwm i'r rhieni a'r unig frawd yw ei cholli mor gynnar, a hithau'n eneth mor ffel. Nid oes galw yn ôl ar ddoe, ac nid oes gennym ond gobeithio y cant nerth i gario'u croes. Credwn y bydd yr atgofion melus amdani yn help mawr iddynt. Dygwyd ei chorff adref i fynwent Capel y Fadfa, a chladdwyd y dydd Mercher dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins ; W. M. Jenkins, Talgarreg, a J. Marles Thomas.

Nodion yr Eglwysi.

ABERYSTWYTH.—Llongyfarchion calonnog i Miss Betty Pugh Jones ar ennill ohoni Dystysgrif Ysgol Prifysgol Rhydychen. Merch Cadben a Mrs. Emlyn Jones, Brynteg, Caergog, o'r dref yma yw Betty, ac o du ei mam hana o deulu sydd wedi bod ac yn para i fod yn ffyddlon ac yn weithgar gyda'r achos Undodaidd yng Nghiliau, Capelybryn, ac Aberystwyth. Mae hithau hefyd yn dilyn yn yr un llwybrau. Pob llwydd a phob daioni a'i dilyno eto yn y dyfodol.

LLANDYSUL.—Nos Sul, Awst 17, yng Nghapel y Graig cynhaliwyd gwasanaeth Coffa i John Evans, Kings Head (R.A.F.), a fu farw yn y Dwyrain pell Chwefror 24, 1942 yn 27 mlwydd oed. Talodd ei weinidog iddo deyrnged uchel am ei gymeriad pur a'i sêl at yr Ysgol Sul a Chapel y Graig. Yn ystod y gwasanaeth dadorchuddiwyd Faen Coffa brydferth gan y Parch. Gwilym Evans, B.A. er cadw ar gof brydferthwch bywyd un a aberthodd y cyfan dros ei wlad. "Cariad mwy na hwn nis oed gan neb".

Cyrddau'r Hydref.

Bydd Cyrddau'r Hydref yng Nghefncoed ar Hydref 29 a 30. Byddant yn gyfarfodydd dathlu dau can mlwyddiant yr Hen Dŷ Cwrdd. Ceir y manylion yn rhifyn Hydref.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul